Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyflawniad Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd: Papur briffio

Mawrth 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyflawniad Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd:
## Papur briffio

Mawrth 2026

**Awduron:**
Ymchwil y Senedd

**Overview:**
Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar 13 Mawrth 2026 gyda'r Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, i graffu ar gyflawniad Llywodraeth Cymru o'i Rhaglen Lywodraethu yn ystod tymor hwn o'r Senedd.

Mae'r ddogfen briffio hon yn nodi gwybodaeth gefndir berthnasol a rhai o'r materion allweddol y gallai'r Pwyllgor eu trafod.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................... 1**

**2. Y Rhaglen Lywodraethu ........................................................... 1**

Adroddiadau Blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.... 2

Cyfres Ymchwil y Senedd ar y Rhaglen Lywodraethu, 2023 ...................... 2

Cyd-destun tymor y Senedd hon ........................................................... 2

**3. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel" .................................. 3**

Darparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig ..................................... 4

Iechyd meddwl........................................................................................ 5

Mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a diwygio gofal sylfaenol 6

Gwasanaethau meddygon teulu ...........................................................6

Y gweithlu meddygol ehangach...........................................................6

Deintyddion...........................................................................................6

**4. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed"....... 7**

Y cefndir ................................................................................................ 8

Plant sydd â phrofiad o ofal.................................................................... 8

Gofal plant ............................................................................................. 9

Y gweithlu gofal cymdeithasol ........ 9

Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ........ 10

**5. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt" ........ 11**

Y cyflenwad o dai cymdeithasol ........ 12

Digartrefedd ........ 13

Ail gartrefi a llety gwyliau ........ 13

Tai cymunedol a chydweithredol ........ 14

Ôl-osod ........ 14

Trafnidiaeth ........ 15

Strategaeth pren ........ 15

**6. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol" ........ 16**

Y Warant i Bobl Ifanc ........ 17

Diweithdra ymhlith pobl ifanc ........ 17

Young people not in education, employment or training (NEET) ........ 18

Prentisiaethau ........ 18

Gwaith craffu diweddar y Pwyllgor ........ 19

**7. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Adeiladu economi**

**gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio" ........................................................................19**

Ymrwymiadau trafnidiaeth ........................................................................ 20

Cymorth amgylcheddol a ffermydd ........................................................................21

**8. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu "Ymgorfforï ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn" ..........22**

Y cefndir ........................................................................23

Datganoli Ystâd y Goron ........................................................................23

Plastigau untro a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ........................................................................24

Dynodiad Parc Cenedlaethol ........................................................................25

**9. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math" ..........................25**

Dathlu Amrywiaeth ........................................................................26

Bylchau cyflog ........................................................................27

Cyllidebu ar sail rhywedd ........................................................................28

**10. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu" ......................28**

Ardoll ymwelwyr ........................................................................29

Cyllid diwylliant a chwaraeon ........................................................................29

Cyflwyno diwylliant ........ 30

Deddfwriaeth y Gymraeg ........ 31

Safonau'r Gymraeg ........ 31

**11. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi" ........ 32**

Cynnydd o ran amcan addysg y Rhaglen Lywodraethu yn ei gyfanrwydd 33

Addysg drydyddol ac ymchwil ........ 34

**12. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang" ........ 35**

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ........ 35

Rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i Gymru ar y llwyfan byd-eang ........ 37

# 1. Cyflwyniad

Ar **13 Mawrth 2026,** mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, ar gyflawniad Llywodraeth Cymru o'i **Rhaglen Lywodraethu 2021-2026** yn ystod tymor y Chweched Senedd.

Mae hyn yn dilyn sesiwn flaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis **Gorffennaf 2025** gyda'r Prif Weinidog ar gyflawniad Llywodraeth Cymru, pan yr oedd yn agosáu at ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn ei swydd. Roedd y sesiwn honno yn canolbwyntio ar y pedwar prif flaenoriaeth a bennodd yn fuan ar ôl dod yn Brif Weinidog.

Mae'r sesiwn ar 13 Mawrth yn canolbwyntio ar y Rhaglen Lywodraethu a'r Senedd gyfan hon. Mae'r ddogfen briffio hon yn nodi gwybodaeth gefndir berthnasol a rhai o'r materion allweddol y gallai'r Pwyllgor eu trafod.

# 2. Y Rhaglen Lywodraethu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-26** ym mis Mehefin 2021, gan ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 i adlewyrchu'r **Cytundeb Cydweithio** gyda Phlaid Cymru (sydd wedi dod i ben erbyn hyn). Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi ei seilio ar 10 **'amcan llesiant'**, pob un yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd polisi. Mae nifer o **ymrwymiadau** yn cyd-fynd â phob amcan llesiant ac, oherwydd eu bod yn rhychwantu portffolios, maent yn gyfrifoldeb ar Gabinet cyfan Llywodraeth Cymru. Roedd y Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cynnwys nifer o **ymrwymiadau** sy'n gyfrifoldeb ar **Ysgrifenyddion Cabinet / Gweinidogion unigol**.

Y deg amcan llesiant (yn y drefn y cyflwynir nhw yn y papur briffio hwn) yw:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
- Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

## Adroddiadau Blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **adroddiad blynyddol bob mis Gorffennaf** sy'n nodi i ba raddau y llwyddwyd i roi'r Rhaglen Lywodraethu ar waith. Mae'r adroddiad yn cynnwys atodiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, am bob un o'r 115 o ymrwymiadau sy'n dod o dan y 10 amcan llesiant.

Cyhoeddwyd **Adroddiad Blynyddol 2025** ar 11 Gorffennaf 2025. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud mai hon fydd y dogfen olaf o'r fath a gyhoeddir yn nhymor y Senedd hon. Er nad yw'r Prif Weinidog wedi darparu papur penodol i lywio'r sesiwn hon, yn ei **llythyr dyddiedig 19 Chwefror** darparodd grynodeb ar ffurf pwyntiau bwled o'i safbwynt ar rai cyflawniadau a datblygiadau allweddol ers yr adroddiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r pwyntiau bwled hyn yn cwmpasu'r saith maes a ganlyn: tai, trafnidiaeth, swyddi, iechyd, diwylliant, ffermio, a phrydau ysgol am ddim

## Cyfres Ymchwil y Senedd ar y Rhaglen Lywodraethu, 2023

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **gyfres o erthyglau,** gan ddefnyddio gwybodaeth gyhoeddus i grynhoi i ba raddau roedd Llywodraeth Cymru wedi llwyddo, ar y pryd, i gyflawni ei Rhaglen Lywodraethu.

## Cyd-destun tymor y Senedd hon

Cyhoeddwyd Rhaglen Lywodraethu 2021-26 ar **15 Mehefin 2021**, yn fuan ar ôl dechrau tymor y Chweched Senedd hon. Roedd hwn yn gyfnod pan oedd Cymru, fel gweddill y Deyrnas Unedig, yn dod allan o gyfnodau argyfwng y pandemig COVID-19 ac yn symud tuag at gyfnod a oedd yn canolbwyntio ar adferiad. Roedd Cymru wedi symud o lefel rhybudd 4 (lefel rhybudd uchaf **Cynllun Rheoli Coronafeirws** Llywodraeth Cymru) i **lefel rhybudd 3 ar 3 Mai 2021** a **lefel rhybudd**

**2 ar 17 Mai 2021.**

Yna, symudodd Cymru i **lefel rhybudd un ar 17 Gorffennaf 2021** a **lefel rhybudd sero ar 7 Awst 2021.** Oherwydd yr amrywiad Omicron a ddaeth i'r amlwg, bu symudiad yn ôl i **lefel rhybudd 2 ar 26 Rhagfyr 2021** cyn dychwelyd i **lefel rhybudd sero ar 27 Ionawr 2022**. Ar 5 Mai 2023, **datganodd Sefydliad Iechyd y Byd** nad oedd COVID-19 bellach yn argyfwng iechyd cyhoeddus o bryder rhyngwladol (PHEIC), sy'n golygu y gallai gwledydd ddechrau symud o'r modd brys i reoli COVID fel mater iechyd parhaus ochr yn ochr â chlefydau heintus eraill. Mae amserlenni COVID-19 y **Pumed Senedd** a'r **Chweched Senedd** gan Ymchwil y Senedd yn darparu rhagor o wybodaeth

Dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, yn **y Cyfarfod Llawn ar 15 Mehefin 2021** bod y Rhaglen Lywodraethu "yn bennaf oll, yn ymwneud ag adferiad o'r pandemig", gan dynnu sylw at yr adferiad iechyd, addysg ac economaidd a oedd ei angen yn ogystal ag "argyfwng mawr arall ein dyddiau ni: argyfwng colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd".

Mae tymor y Senedd hon hefyd wedi gweld **rhyfel Rwsia yn erbyn Wcráin, pwysau costau byw** sylweddol, ynghyd â goblygiadau **ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd**, i nodi dim ond rhai materion trawsbynciol.

## 3. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **A yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i wireddu ei gweledigaeth o Gymru iachach?**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **Atodiad Manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd.
- Darparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig.

- Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector at ei gilydd.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl.
- Cyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ledled Cymru.
- Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig.
- Adolygu cynllunio llwybr cleifion a chyllid hosbisau.
- Datblygu cynllun gweithredu HIV i Gymru.
- Cyflwyno cod ymarfer statudol ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth.

## Darparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig

Mae adroddiad blynyddol 2025 ar y Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at y cynnydd o ran lleihau'r arosiadau hiraf am driniaeth, gyda chymorth buddsoddiad ychwanegol a gwaith i ailgynllunio llwybrau gofal a gynlluniwyd. Mae **cynllun adfer gofal a gynlluniwyd** Llywodraeth Cymru 2022 yn gosod targedau i ddileu'r rhan fwyaf o arosiadau dwy flynedd erbyn mis Mawrth 2023, arosiadau un flwyddyn erbyn gwanwyn 2025, a sicrhau bod 80% o gleifion canser yn dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod erbyn mis Mawrth 2026. Roedd **cynllun adfer wedi ei adnewyddu** yn 2025 yn rhoi pwyslais cryfach ar oruchwyliaeth genedlaethol, a dyrannodd £120 miliwn ychwanegol ar ben y £170 miliwn o fuddsoddiad blynyddol mewn gwasanaethau gofal a gynlluniwyd, gyda'r nod o dorri'r rhestr aros gymaint â 200,000 o lwybrau, dileu arosiadau dwy flynedd, ac adfer arosiadau diagnostig i lai nag wyth wythnos.

Fel yr oedd pethau ym mis **Rhagfyr 2025**, roedd ychydig o dan 741,000 o lwybrau atgyfeirio at driniaeth yn aros am driniaeth - yr isaf ers mis Mawrth 2023. Roedd arosiadau dwy flynedd wedi gostwng i 5,300, sy'n 92.5% o ostyngiad ers y brig ym mis Mawrth 2022, ac roedd perfformiad canser wedi gwella i 60.7%, sy'n dal i fod rywfaint yn brin o'r targed 80%. Mae diagnosteg yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol, gyda 137,300 o lwybrau yn aros - yr uchaf erioed - a thros 46,800 yn aros

yn hirach na'r targed wyth wythnos.

Yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym **mis Rhagfyr (paragraffau 188-195)**, dywedodd y Prif Weinidog fod yn rhaid i'r Llywodraeth barhau i flaenoriaethu gostyngiadau mewn rhestrau aros hir, tra'n anelu at symud mwy o adnoddau tuag at atal a gofal yn agosach at adref, unwaith y bydd yr ôl-groniad ar ôl y pandemig wedi lleddfu.

## Iechyd meddwl

Mae **Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol** Llywodraeth Cymru (Ebrill 2025) yn nodi newid o system wedi ei harwain gan iechyd yn bennaf i un sy'n canolbwyntio ar atal, ymyriadau cynnar, gyda chymorth yn cael ei ddarparu ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau cymunedol. Mae cyllid iechyd meddwl yn parhau i fod wedi ei glustnodi a disgwylir iddo fod yn fwy na £840 miliwn yn 2026–27. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys prif ffrydio gwasanaethau fel **GIG 111 Pwyso 2,** a chryfhau perfformiad drwy'r **Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl.**

Er gwaethaf hyn, mae tystiolaeth yn dangos pwysau parhaus ar y system. Mae **adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn 2025 ar wasanaethau iechyd meddwl** yn tynnu sylw at brinder gweithlu, llywodraethu anghyson, a phryderon am yr amgylchedd gofal ar draws gwasanaethau cleifion mewnol a chymunedol. Croesawodd **Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru** fentrau fel GIG 111 Pwyso 2 ond pwysleisiodd yr angen i gryfhau'r system ehangach o'i chwmpas. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn rhybuddio, er bod strategaeth iechyd meddwl Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd clir, y bydd angen mynd i'r afael â heriau strwythurol fel prinder staffio, ansawdd ystadau, a sicrhau mynediad cyson at ymyriadau seicolegol a therapiwtig.

Mae **rhaglen mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** wedi cael ei chyflwyno'n genedlaethol erbyn hyn, er nad oes gan Gymru ddata neu fesurau cyson eto i ddangos pa mor dda mae'r rhaglen yn gweithio ar draws pob bwrdd iechyd.

## Mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a diwygio gofal sylfaenol

### Gwasanaethau meddygon teulu

Mae'r **ymrwymiad mynediad at feddygon teulu** a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i bractisau gynnig cymysgedd o fathau o apwyntiadau a rhoi terfyn ar y 'tagfa' 8am. Yn dilyn cytundeb contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 2025–26, **dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles AS**, y byddai camau pellach yn cael eu cymryd i gryfhau'r safonau mynediad, ac y byddai'n disgwyl gwelliannau o fis Ebrill 2026. Yn **ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddyfodol meddygaeth deulu** canfuwyd anawsterau parhaus wrth geisio mynediad at ofal meddygon teulu, gweithlu o dan straen sylweddol, a thimau amlddisgyblaethol yn gweithredu'n anghyson oherwydd cyfyngiadau seilwaith, digidol ac ariannol.

### Y gweithlu meddygol ehangach

Croesawodd Ysgol Feddygaeth Gogledd Cymru ei charfan gyntaf o 80 o fyfyrwyr ym mis Medi 2024, gyda disgwyl i'r niferoedd godi i 140 y flwyddyn erbyn 2029–30. Fodd bynnag, mae **BMA Cymru** a **Choleg Brenhinol y Meddygon** wedi codi pryderon nad yw ehangu ysgolion meddygol wedi bod yn cyd-fynd â chynnydd mewn swyddi hyfforddiant sylfaen neu arbenigol - gan greu tagfeydd a chyfrannu at gymarebau cystadleuaeth uchel ac atal dilyniant ar gyfer meddygon ar ddechrau gyrfa.

### Deintyddion

Bydd **contract newydd Gwasanaethu Deintyddol Cyffredinol y GIG** yn dod i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2026. Nod y contract yw gwella mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG, disodli gwiriadau chwe mis awtomatig gyda dull sy'n seiliedig ar anghenion a risg iechyd y geg yr unigolyn, a chyflwyno system dalu decach a mwy tryloyw i ddeintyddion.

# 4. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Cefnogi pobl sy'n 'agored i niwed': beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni?**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Talu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal a, chan weithio gyda phartneriaid cymdeithasol drwy'r Fforwm Gwaith Teg, ystyried camau pellach tuag at sicrhau cydnabyddiaeth a gwobrwyo cydradd i weithwyr gofal.
- Cynyddu prentisiaethau ym maes gofal a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.
- Sefydlu grŵp arbenigol i gynghori erbyn mis Ebrill 2022 ar y camau gweithredu ymarferol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth gofal cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen.
- Deddfu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach.
- Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal.
- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith.
- Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.
- Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant

sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.

- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

## Y cefndir

Mae pobl yn byw'n hirach, a hynny gyda chyflyrau cronig. Mae mwy o blant yn dod i ofal y wladwriaeth. Mae hyn i gyd ar gefndir o ddwy her sylweddol i ofal cymdeithasol: y gweithlu bregus, ynghyd ag effaith costau byw ar unigolion ac ar ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys awdurdodau lleol.

## Plant sydd â phrofiad o ofal

Mae mwy nag un o bob cant o blant yng Nghymru **mewn gofal, a'r 'wladwriaeth' yw eu rhiant**. Mae dros **chwarter y plant sy'n derbyn gofal** wedi byw mewn dau leoliad neu ragor yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae **llai nag un o bob pump** o blant sy'n derbyn gofal yn cael 5 TGAU neu ragor ar raddau A*-C, gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg. **Mae rhai yn cael eu lleoli** mewn lleoliadau anghyfreithlon neu anghofrestredig, mae eraill yn mynd ar goll neu'n destun **'gorchymyn colli rhyddid'** am resymau lles neu risgiau i'w diogelwch. Mae llawer o'r rhai sy'n gadael gofal yn dod yn ddigartref, ac mae'r **Pwyllgor Deisebau** wedi canfod bod tua chwarter y bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi wynebu sefyllfa lle mae un neu ragor o'u plant eu hunain wedi cael eu cymryd i ofal y Wladwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud a chyflawni sawl ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yn y maes polisi hwn. Cyflawnwyd ei ymrwymiad deddfwriaethol i **dynnu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal** drwy ddarpariaethau yn **Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025** sy'n cael eu deddfu o fis Ebrill 2026. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau am effaith ei gweithredu, gydag adroddiadau yn y cyfryngau yn tynnu sylw at **Gyngor sy'n ysgwyddo bil gofal o £2 miliwn dros un plentyn yn unig** ac yn hawlio bod **darparwyr gofal preifat yn 'elwa' wrth i gynllun i gyfyngu ar elw 'fethu'**. Dywed **Arolygiaeth Gofal Cymru** nad yw'n "gweld unrhyw newid sylweddol mewn tueddiadau cofrestru ar hyn o bryd tuag at ddarpariaeth 'nid-er-elw'", a bod 58% o'r 43 gwasanaeth newydd yn ddarparwyr preifat.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi **ystyried ai'r ymrwymiadau hyn**

**yn y Rhaglen Lywodraethu yw'r blaenoriaethau cywir ar gyfer 'newid radical',** o'u gosod ar gefndir o gyfraddau cynyddol o blant mewn gofal a'r pwysau ariannol ar iechyd a gofal cymdeithasol. **Daeth i'r casgliad** nad yw ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn ddigon radical, a dywedwyd:

> Dylai unrhyw un sy'n honni bod y wladwriaeth yn gwneud ei waith rhianta corfforaethol yn dda ystyried a fyddent yn hapus i'w plentyn ei hun gael gofal gan y system honno.

## Gofal plant

Buddiolwyr gwreiddiol y **Cynnig Gofal Plant i Gymru** oedd **rhieni sy'n gweithio** ond, yn **dilyn beirniadaeth**, rhoddodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith". Gall rhieni plant 3 a 4 oed sydd wedi ymrestru mewn addysg bellach neu addysg uwch wneud cais am 30 awr o ofal plant am 48 wythnos y flwyddyn. Cwblhaodd Llywodraeth Cymru yr ymrwymiad hwn erbyn mis Medi 2022.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad ar wahân i ehangu gofal plant am ddim Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed. Ym mis Ionawr 2026, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd mwy na 20,000 o blant dwy oed wedi cael cynnig y 'gofal plant Dechrau'n Deg' am ddim am 12.5 awr yr wythnos, ac **amcangyfrifwyd y bydd y cynnig yn cael ei roi i 66%** o'r boblogaeth gymwys erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

## Y gweithlu gofal cymdeithasol

Mae erthygl Ymchwil y Senedd yn 2022, **'Gofal Cymdeithasol: gweithlu mewn argyfwng?'** yn nodi'r heriau enfawr sy'n wynebu gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r sector gofal cymdeithasol yn parhau i brofi pwysau parhaus a phrinder staffio parhaus.

Mae'r **data diweddaraf sydd ar gael am y gweithlu** (2024) yn dangos bod swyddi gwag wedi aros yn sefydlog, gydag amcangyfrif o 5,346 o swyddi gwag, a'r gyfran uchaf mewn gofal preswyl i oedolion (34.9% o gyfanswm y swyddi gwag). Mae dros chwarter (25.9%) o weithwyr gofal cartref ar gontractau dim oriau, ac mae contractau achlysurol yn cyfrif am 30.9% o gontractau gofal preswyl i oedolion awdurdodau lleol.

Canfu **arolwg diweddaraf Gofal Cymdeithasol Cymru o'r gweithlu** (2024) bod un o bob pump o weithwyr gofal cymdeithasol yn bwriadu gadael y sector o fewn 14 mis ar

gyfartaledd. Roedd y rhesymau yn cynnwys cyflog isel, diffyg cydnabyddiaeth, amodau gwaith gwael, a diffyg cyfleoedd datblygu gyrfa. Roedd 42% o staff yn anfodlon â'u cyflog.

Dechreuwyd gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Ebrill 2022, ac fe'i croesawyd gan lawer fel cam cyntaf. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid, gan gynnwys **Undebau Llafur** a darparwyr gofal, wedi dweud nad yw hyn ar ei ben ei hun yn ddigon i fynd i'r afael â'r prinderau.

Sefydlwyd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ym mis Medi 2020. Cyhoeddodd **ddiweddariad ynghylch cynnydd yn 2023** gan amlinellu cynlluniau fel model gwirfoddol o gydfargeinio, gyda'r nod o wella cydraddoldeb o ran telerau ac amodau a fframwaith gwirfoddol cynnydd a thâl. **Dywedodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ar y pryd nad oedd eto wedi ei argyhoeddi bod y mesurau gwirfoddol hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â difrifoldeb y sefyllfa.

Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi **sefydlu Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol** fel ffurf wirfoddol o fargeinio ar y cyd. Ar hyn o bryd mae'n **ymgynghori ar ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol** i Gymru ar gyfer gosod Cytundebau Cyflog Teg i'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn dilyn Deddf Hawliau Cyflogaeth y Deyrnas Unedig 2025. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **Fframwaith cyflog a dilyniant gwirfoddol y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol** (2026), gyda **datganiad llafar gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol** ar 24 Chwefror yn amlinellu datblygiadau diweddar.

Mae **diweddariad cynnydd blynyddol 2025 y Fforwm** yn nodi heriau recriwtio rhyngwladol fel blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg, a ysgogwyd gan gyhoeddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y Papur Gwyn ar Fewnfudo. O dan y newidiadau, ni fydd gweithwyr tramor bellach yn gallu gwneud cais am rolau gweithiwr gofal cymdeithasol neu reolwr gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r fforwm wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried mecanwaith cymorth ar frys i weithwyr tramor sy'n byw yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n cael eu dadleoli oherwydd dirymu trwyddedau cyflogwyr ac felly sydd ag amser cyfyngedig i ddod o hyd i waith newydd.

## Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu grŵp arbenigol i gynghori ar y camau tuag at ddarparu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol am ddim pan fo angen. Roedd y **Cytundeb Cydweithio** yn ychwanegu at hyn, gan gynnwys ymrwymiad i gytuno ar gynllun gweithredu erbyn

diwedd 2023.

Sefydlwyd y grŵp arbenigol ym mis Chwefror 2022 a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad y grŵp** ym mis Tachwedd 2022.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **"Chynllun Gweithredu Cychwynnol"** ar gyfer y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, ac ym mis Ebrill 2024, lansiwyd **y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth** yn swyddogol. Yn fuan wedyn, lansiodd Llywodraeth Cymru ei **Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol** ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth. Yn 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth **ei hadroddiad blynyddol cyntaf.**

Er gwaetha'r datblygiadau hyn, mae cwestiynau mawr o hyd ynghylch sut gellid cyllido Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol (am ddim pan fo angen), a phryd y gellid gwireddu hyn.

Mae adroddiad diweddar gan y **Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol (LGiU)** yn dyfynnu beirniadaeth rhanddeiliaid, sef er bod cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'i Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wedi rhoi'r argraff bod cynnydd yn cael ei wneud, nid ydynt wedi trosi i ganlyniadau diriaethol.

## 5. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Dinasoedd, trefi a phentrefi: gallant ond fod yn lleoedd "gwell fyth"**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **Amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.

- Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio.
- Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau.
- Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
- Creu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren a all ddatblygu a chynnal cynhyrchu a phrosesu gwerth uchel i bren Cymru.
- Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol.
- Ystyried ble y gellir dod â gwasanaethau a chontractau yn ôl yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy i mewn i sector cyhoeddus cryfach.
- Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol.
- Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol.
- Gwneud 20 mya yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl.
- Gwahardd parcio ar y palmant, ble bynnag y bo modd.

## Y cyflenwad o dai cymdeithasol

Mae'r **ystadegau darpariaeth tai fforddiadwy** diweddaraf yn dangos bod 13,399 o gartrefi wedi eu sicrhau tuag at y targed o 20,000 erbyn mis Mawrth 2025. Cafodd cyfanswm o 3,643 o gartrefi eu darparu yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025, sef 12% o gynnydd o'i gymharu â'r nifer a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol a'r cyfanswm uchaf ers dechrau cofnodi data yn 2007 i 2008.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn darparu 18,652 o gartrefi erbyn mis Ebrill 2026, sy'n golygu y bydd yn cyflawni tua 93% o'r ffigur targed erbyn diwedd tymor y Senedd hwn. Mae amcanestyniadau swyddogol yn dangos y **bydd y targed 20,000 yn cael ei gyflawni erbyn diwedd 2026**, a rhagwelir y bydd 20,304

o gartrefi yn cael eu cyflawni erbyn mis Rhagfyr.

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cynnal **ymchwiliad dilynol** i'w ymchwiliad yn 2024 i'r cyflenwad tai cymdeithasol. Yn ogystal â chraffu ar weithredu ei argymhellion yn 2024, mae'r Pwyllgor yn asesu cynnydd o ran gweithredu **argymhellion y Tasglu Tai Fforddiadwy**, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ychydig cyn cyhoeddi adroddiad 2024.

Ar 18 Chwefror 2025 **cyhoeddodd Archwilio Cymru neges blog** i ganlyn **ei waith yn 2024** ar y targed tai fforddiadwy. Rhybuddiwyd yn y blog y bydd yn heriol bodloni'r amcanestyniadau diwygiedig o hyd, ac amlygwyd y risg o ostyngiad yn y lefelau cyflawni yn gynnar yn y Seithfed Senedd, a fyddai'n gyson â'r 26% o ostyngiad yn y cyflawni a ddigwyddodd ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd.

## Digartrefedd

Fel yr oedd pethau ar 30 Tachwedd 2025, roedd 10,865 o bobl mewn llety dros dro, sy'n 5.5% o ostyngiad mewn cyfnod o 12 mis. Mae hyn yn cynnwys 2,429 o blant dibynnol, sy'n 16% o ostyngiad.

Pasiodd **y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)** drwy Gyfnod 4 ar 10 Chwefror 2026. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, Jayne Bryant AS, nad oedd y diwygiadau deddfwriaethol yn **"ateb cyflym"** a bydd yn cymryd amser i'w gweithredu.

**Clywodd pwyllgorau craffu dystiolaeth** y bydd gweithredu llwyddiannus yn gofyn am lawer mwy o adnoddau yn llifo i mewn i faes digartrefedd, **cymorth tai,** a chyflenwad tai cymdeithasol. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn honni y bydd yn **arbed arian yn y tymor hir.**

## Ail gartrefi a llety gwyliau

Yn 2026-27 mae 26,174 o ail gartrefi yng Nghymru y gellir codi'r dreth gyngor arnynt. Mae hyn yn 2,207, neu 9.2 y cant, o gynnydd o'i gymharu â 2025-26 (23,967). O'r holl ail gartrefi y gellir codi treth arnynt, codir premiwm treth gyngor rhwng 50 a 150% ar 20,463 ohonynt, sef 78%.

Mae'n debyg mai un ffactor y tu ôl i'r cynnydd fydd symud gosodiadau gwyliau rhwng ardrethi annomestig a rhestrau prisio'r dreth gyngor. Canfu ystadegau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn 2023-24 bod **1,240 o gartrefi gwyliau hunanarlwyo** wedi eu dileu o'r rhestr ardrethi annomestig, gyda 950 o fewnosodiadau cyfatebol ar restr y dreth gyngor.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr** ar 3 Tachwedd 2025, a fydd yn creu cynllun trwyddedu ar gyfer rhai mathau o osodiadau tymor byr. Mae'r Bil ar hyn o bryd yng Nghyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol.

## Tai cymunedol a chydweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo tai a arweinir gan y gymuned drwy gyllido **Cwmpas** yn bennaf. Ar 28 Ionawr 2026, **dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet** fod gan Cwmpas 45 o grwpiau tai gweithredol a arweinir gan y gymuned erbyn hyn, gyda **phiblinell ddatblygu o 296 o gartrefi.** O'r rhain, mae pum prosiect yn gwmnïau cydweithredol tai sy'n darparu 42 o gartrefi cydweithredol. Dywedodd Jane Bryant AS mai ffynonellau eraill o gyllid posibl oedd y **Grant Tai Cymdeithasol**, y **Grant Cartrefi Gwag**, a chronfa **Perthyn.**

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet "Rydym eisiau tyfu, ond rhaid inni fod yn realistig ynglŷn â sut olwg sydd ar dwf yng Nghymru ac ar gyfer y sector a arweinir gan y gymuned". Ychwanegodd ei bod hi wedi derbyn yr argymhelliad yn 2024 gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ailystyried sefydlu cronfa fenthyciadau gylchol ar gyfer tai a arweinir gan y gymuned, a bod Llywodraeth Cymru yn aros am gynnig ac achos busnes gan Cwmpas. Fodd bynnag, o ystyried yr amseriad, dywedodd bod hwn yn debygol o fod yn benderfyniad i'r Llywodraeth nesaf.

## Ôl-osod

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido nifer o gynlluniau sy'n cefnogi ôl-osod cartrefi. Ers 2020, mae'r **Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** (ORP) wedi cyflawni **tua 31,000 o osodiadau effeithlonrwydd ynni** mewn tai cymdeithasol a oedd yn bodoli'n barod, gyda chymorth dros £355 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Gall perchnogion tai yng Nghymru wneud cais am fenthyciadau di-log drwy gynllun **Cartrefi Gwyrdd Cymru**, ac mae'r Rhaglen Cartrefi Cynnes (neu Nyth) yn darparu **gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'r cartref am ddim** i'r rhai ar incwm isel. Mae'n bosibl y bydd landlordiaid preifat yn gallu cael help i wella effeithlonrwydd ynni eiddo drwy **Gynllun Lesio Cymru**, ar yr amod eu bod yn cytuno i brydlesu'r eiddo i'w hawdurdod lleol am gyfnod.

Ym mis Ebrill 2023, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu **map llwybr datgarboneiddio tai preswyl** dros Gymru. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2025 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cyhoeddi'r map llwybr yn debygol o fod yn **benderfyniad i'r Llywodraeth nesaf.** Dywedodd fod

camau gweithredu i gynorthwyo ôl-osod yn cael eu dylanwadu'n gryf gan bolisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn meysydd a gedwir yn ôl, ac y byddai angen amser ar swyddogion i ddadansoddi effaith yr oedi cyn cyflwyno **Cynllun Cartrefi Cynnes** Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac unrhyw oblygiadau ar gyfer cyllid canlyniadol

## Trafnidiaeth

**Cyflwynodd Cymru derfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig** ym mis Medi 2023. Arweiniodd ymateb cryf y cyhoedd at **ganllawiau wedi eu diweddaru** ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2024, ac mae **adolygiad tri cham a lansiwyd** ym mis Ebrill 2024 yn dal i fynd rhagddo. Dangosodd **adroddiad monitro Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf 2025** fod cyflymderau cyfartalog ar brif ffyrdd 20mya wedi gostwng 3.8mya a bod anafiadau ffyrdd "wedi lleihau 11.8% yn y pedwar chwarter ar ôl i'r polisi gael ei gyflwyno", **er bod angen tair blynedd o ddata ar wrthdrawiadau** er mwyn cael gwerthusiad llawn.

Dilynwyd **Adroddiad y Tasglu Parcio ar y Palmant** Llywodraeth Cymru yn 2020 â **chynlluniau i ymgynghori a deddfu yn 2023,** ond bu **oedi oherwydd y pwysau ar awdurdodau lleol. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach** ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, **a gyhoeddodd** bwerau dros ardaloedd ehangach yn Lloegr ym mis Ionawr. Dywedir yn **nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** ei bod yn cefnogi dull y Deyrnas Unedig a'i bod yn trafod ei gymhwyso i Gymru.

## Strategaeth pren

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren** ym mis Gorffennaf 2025. Ei nod yw cynyddu'n gynaliadwy ac ychwanegu gwerth at bren a dyfir yng Nghymru. Fe wnaeth Confor, corff cynrychioliadol y diwydiant coedwigaeth yn y Deyrnas Unedig, **groesawu'r strategaeth.**

# 6. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: “Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol”

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Adeiladu’r economi: A yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i sicrhau gwaith teg, cynaliadwyedd ac economi’r dyfodol?**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae’r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Cyflwyno’r Warant i Bobl Ifanc, gan roi i bawb o dan 25 oed y cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.
- Creu 125,000 o brentisiaethau pob oed.
- Rhoi sail ddeddfwriaethol i’r bartneriaeth gymdeithasol drwy’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).
- Defnyddio’r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau’r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy’n gweithio.
- Cryfhau ein Contract Economaidd.
- Cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau undeb ddod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle.
- Cefnogi’r gwaith o greu Banc Cymunedol i Gymru.
- Datblygu Her Morlyn Llanw a chefnogi syniadau a all wneud Cymru yn ganolfan fyd eang i dechnolegau llanw sy’n dod i’r amlwg.
- Galluogi canol ein trefi i ddod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio’n gydweithredol, cynyddu eu cynnig digidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol.
- Ceisio targed o 30% ar gyfer gweithio o bell.

## Y Warant i Bobl Ifanc

Mae'r **Warant i Bobl Ifanc** yn ymrwymiad allweddol i roi cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed, sy'n byw yng Nghymru, i ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant neu helpu i fynd i waith neu hunangyflogaeth.

Ynghyd â'r **Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid**, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Warant i Bobl Ifanc yn hanfodol o ran cyflawni ei **cherrig milltir cenedlaethol**, "yn benodol y garreg filltir y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050". Gyda'i gilydd, bwriad y Warant a'r Fframwaith yw atal pobl ifanc rhag peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Mae'r Warant yn strwythur ymbarél ac mae'n cwmpasu nifer o becynnau cymorth, gan gynnwys

- **Twf Swyddi Cymru+**, sydd â'r nod o helpu pobl ifanc 16-19 oed i gael sgiliau, y cymwysterau a'r profiad i gael swydd neu hyfforddiant pellach.
- **ReAct+**, cyllid ar gyfer pobl dros 20 oed sydd wedi colli eu swydd yn ddiweddar neu sydd mewn perygl o golli eu swydd;
- Mae **Syniadau Mawr Cymru** yn helpu pobl dan 25 oed i ddechrau eu busnes eu hunain;
- Mae **Cymunedau am Waith a mwy** yn darparu cymorth cyflogaeth arbenigol i bobl ifanc sy'n NEET ac sydd â rhwystr cymhleth i gyflogaeth neu'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglenni eraill; ac
- Addysg bellach; prentisiaethau ac addysg uwch.

### Diweithdra ymhlith pobl ifanc

Roedd **cyfradd diweithdra pobl ifanc yng Nghymru** yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 yn 16.3%; mae hyn yn 9.5 pwynt canran o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Cyfradd gyfatebol y Deyrnas Unedig oedd 13.5%; i fyny 1.9 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yng Nghymru, roedd y gyfradd ddiweithdra ymhlith dynion ifanc yn 18.3%, yn uwch na'r gyfradd ar gyfer menywod, sef 13.8%. Cynyddodd y gyfradd ar gyfer dynion 11.2 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol; o'i gymharu â 7.5 pwynt canran o gynnydd ar gyfer menywod.

### Young people not in education, employment or training (NEET)

Roedd **cyfran y bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru a oedd yn NEET** yn 17% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025; 6.2 pwynt canran o gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Prentisiaethau

Un o ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru o dan **y Rhaglen Lywodraethu** oedd creu 125,000 o brentisiaethau pob oed yn nhymor y Senedd hon.

Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2024, yn ystod gwaith craffu gyda'r Pwyllgor hwn, **cytunodd Gweinidog yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS,** y bu gostyngiad yn y targed i 100,000 o brentisiaethau yn dechrau y tymor hwn.

Mae'r **data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Medr** yn dangos, fel yr oedd pethau ar 19 Chwefror 2026, bod 92,800 o brentisiaethau wedi dechrau fel rhan o'r "mesur mwy trylwyr" tuag at darged Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn defnyddio'r 'mesur mwy trylwyr' hwn drwy gydol y Senedd hon a'r un flaenorol. Mae'r data hwn yn ystyried cyfnod o 8 wythnos ar ôl i brentis gael ei gofnodi fel un sy'n dechrau cwrs, gan felly eithrio prentisiaid a allai fod wedi tynnu'n ôl neu symud cyrsiau o fewn yr 8 wythnos gyntaf hynny.

**Dywed Medr** "O gynnwys y dechreuadau nad ydynt wedi'u cyfrif fel rhan o fesur llymach y targed, cafwyd cyfanswm o 101,760 o ddechreuadau prentisiaeth dros y cyfnod hwnnw " fel yr oedd pethau ar 19 Chwefror 2026.

Ar 9 Chwefror, **cyhoeddodd y Prif Weinidog** bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni "ei tharged o ddarparu 100,000 o brentisiaethau". Ar 10 Chwefror, **fe wnaeth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Jack Sargeant AS, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar gyfer yr wythnos brentisiaethau, lle dywedodd: "byddwn yn rhagori ar ein hymrwymiad i greu 100,000 o gyfleoedd prentisiaethau yn ystod tymor y Senedd hon".

Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r mesur targed mwy trylwyr ar gyfer dechreuadau prentisiaethau, sydd wedi cael ei ddefnyddio fel y safon hyd yn hyn, nid yw targed Llywodraeth Cymru o 100,000 wedi ei gyrraedd, gyda'r data diweddaraf yn dangos 92,800 o ddechreuadau.

Mae Medr yn bwriadu darparu diweddariadau misol ar gynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru, gyda'r un nesaf yn cael ei gyhoeddi ar 26 Mawrth.

### Gwaith craffu diweddar y Pwyllgor

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth am ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, cyfraddau NEET a phrentisiaethau yn sesiwn thematig y Pwyllgor ar 'Addysg, pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol' ar **12 Rhagfyr 2025** (gweler paragraffau 125 i 152).

Ar 25 Chwefror 2026, **holodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol** ynghylch cyrraedd y targed prentisiaethau (o baragraff 177 ymlaen). Dywedodd y Gweinidog:

> ...there are two ways in which Medr published their data: their long-standing way of doing that, and their way of releasing management information, which is real-time data. And I think it's really important that we do use that real-time data there, and that's what they've published and that's what we've made the announcement on.

## 7. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Datgarboneiddio economi Cymru: Sbotolau ar drafnidiaeth ac amaethyddiaeth**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Lansio Cynllun Buddsoddi 10 mlynedd newydd yn Seilwaith Cymru ar gyfer economi ddi-garbon.
- Darparu'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu.
- Creu sylfaen ddeddfwriaethol fodern ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.
- Codi'r gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu cwmnïau bysiau trefol

newydd.

- Deddfu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau preifat a mynd i'r afael â phroblemau croesffiniol.
- Rhoi ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru ar waith.
- Adeiladu ar lwyddiant ein cynllun teithio am ddim i bobl hŷn ac edrych ar sut y gall prisiau teg annog teithio integredig.
- Gweithio tuag at ein targed newydd o 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, gan bennu nodau mwy ymestynnol lle bo hynny'n bosibl.
- Bwrw ymlaen ag adroddiad Comisiwn Burns ar gyfer Casnewydd.
- Datblygu cronfa prif ffyrdd newydd i wella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd wrth ymyl prif lwybrau trafnidiaeth Cymru.
- Creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy.
- Cyflwyno cyfnod pontio i'r cynllun cymorth ffermio newydd, gan gynnwys parhau â thaliadau sefydlogrwydd, y tu hwnt i dymor y Senedd bresennol.

## Ymrwymiadau trafnidiaeth

Mae **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** 2021 yn amlinellu sut bydd system drafnidiaeth Cymru yn datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf, wedi ei hategu gan fframwaith monitro sy'n cwmpasu 33 o fesurau. Ym mis Chwefror, **adroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS,** i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith bod 17 o fesurau wedi gwella ers 2021, nad yw deg yn dangos unrhyw newid neu bod diffyg data digonol, a bod chwech wedi gostwng.

O ran y targed o 45% o deithiau yn defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy erbyn 2040, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at newidiadau cadarnhaol cynnar.

Cafodd **Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026**, sy'n galluogi cwmnïau bysiau trefol newydd ac yn cyflwyno masnachfreinio bysiau, Gydsyniad Brenhinol ar 2 Chwefror. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio i weithredu'r Ddeddf, ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru mae wedi **cyhoeddi map ffordd** sy'n amlinellu camau cyflawni allweddol.

Tynnwyd deddfwriaeth i foderneiddio'r sector tacsis a hurio preifat o'r rhaglen ddeddfwriaethol ym mis Mai 2024. Ym mis Gorffennaf, addawodd **y Prif Weinidog**

**ar y pryd, Vaughan Gething AS**, ymgynghoriad ar Fil drafft, ond nid yw hwn wedi ei gyhoeddi.

Cyflwynwyd **cynllun teithiau bws £1** i rai rhwng 5 a 21 oed yn 2025 fel cynllun peilot dros gyfnod o 12 mis. **Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** ym mis Chwefror bod dros ddwy filiwn o deithiau wedi eu gwneud ac y bydd y cynllun yn cael ei werthuso i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Mae gwaith ehangach ar brisiau a thocynnau yn cynnwys **tocynnau 'Tapio a mynd'** ar Linellau Craidd y Cymoedd, sydd i fod i gael ei ymestyn i ogledd-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, **dywed Trafnidiaeth Cymru** bod rhywfaint o ffordd i fynd eto o ran lefelu prisiau tocynnau trên ar draws y rhwydwaith.

Mae TrC wedi creu **Uned Cyflenwi Burns** i gyflymu gweithredu 58 o argymhellion yr Arglwydd Burns ar ddewisiadau amgen i ffordd liniaru'r M4. Ym mis Chwefror **cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig** ei chefnogaeth i **biblinell prosiect seilwaith rheilffyrdd Cymru**, a gyhoeddwyd gan TrC. Wrth wneud hynny, cadarnhaodd y bydd cyllid Adolygiad Gwariant 2025 yn ategu gwelliannau rheilffyrdd a gynigiwyd gan Burns.

Mae **ymateb y Prif Weinidog** i lythyr a anfonodd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn dilyn ei sesiwn ym mis Rhagfyr yn ymdrin â nifer o faterion trafnidiaeth, gan gynnwys darpariaeth cyllideb i gyflawni Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 a chyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer prosiectau rheilffyrdd.

## Cymorth amgylcheddol a ffermydd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Llwybr Newydd i Natur – Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol** ym mis Hydref 2023. Nodwyd bod yr holl flaenoriaethau sydd yn y cynllun hwn i fod i gael eu cwblhau erbyn 2025, neu fe'u disgrifiwyd fel rhai 'parhaus'.

Lansiwyd y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**, yn seiliedig ar **Amcanion statudol Rheoli Tir yn Gynaliadwy**, ym mis Ionawr 2026. Mae **cyfnod pontio** wedi ei gynllunio hyd at 2029, a bydd **taliadau sefydlogi** ar gael. Mae rhanddeiliaid yn pwysleisio mai dim ond drwy gyllid digonol y bydd uchelgais y Cynllun yn cael ei gyflawni, gyda **ffermwyr** ac **amgylcheddwyr** fel ei gilydd yn galw am gynnydd sylweddol. Mae'r undebau yn tynnu sylw at y ffaith nad yw cymorth i ffermydd wedi cynyddu gyda chwyddiant ers dros ddegawd, ac yn dweud bod y Cynllun yn mynnu gofynion ychwanegol gan ffermwyr. Mae amgylcheddwyr yn dadlau, o

ystyried bod amaethyddiaeth yn cwmpasu bron i 90% o Gymru, mae gan y cynllun rôl sylweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

## 8. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur: A oes angen mwy o gynnydd i gyflawni ymrwymiadau'r llywodraeth?**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Comisiynu cyngor annibynnol a fydd yn archwilio llwybrau posibl tuag at sero net erbyn 2035.
- Mynd ar drywydd datganoli'r pwerau sydd eu hangen i'n helpu i gyrraedd sero net, gan gynnwys rheoli Ystad y Goron yng Nghymru.
- Gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth.
- Deddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel.
- Cyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gymell busnesau i leihau gwastraff.
- Creu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r Gogledd i'r De.
- Manteisio ar botensial economaidd, diwylliannol a hamdden y Goedwig Genedlaethol gan adeiladu ar ein cynnydd tuag at greu diwydiant coed cynaliadwy.
- Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru.
- Sicrhau diogelwch tomenni glo drwy gyflwyno deddfwriaeth i ddelio â gwaddol canrifoedd o fwyngloddio, gan gryfhau pwerau'r awdurdodau lleol i sicrhau bod

y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu diogelu.

- Cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, yn gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ac ehangu'r ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer.
- Dynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- Cefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi.
- Cynnal ein polisi o wrthwynebu cloddio am danwydd ffosil yng Nghymru, ar dir ac yn nyfroedd Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael inni.
- Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol.

## Y cefndir

**Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd** yn 2019 a **datganodd y Senedd argyfwng natur** yn 2021.

Mae'r Chweched Senedd wedi pasio pedwar darn o ddeddfwriaeth amgylcheddol, sy'n mynd i'r afael â'r pethau a ganlyn:

- **plastig untro**;
- **ansawdd aer a seinweddau**;
- **tomenni mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir**; a
- **llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth.**

Yn ogystal, comisiynodd Llywodraeth Cymru **gyngor ar sero net 2035**, hyrwyddodd y syniad o **Goedwig Genedlaethol i Gymru**, a **chyllidodd ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio.**

Fodd bynnag, wynebodd broblemau gyda'i hymrwymiadau ar Ystâd y Goron, yr economi gylchol, a Pharc Cenedlaethol newydd.

## Datganoli Ystâd y Goron

Er bod Llywodraeth Cymru **ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau datgarboneiddio**, nid yw wedi ennill unrhyw bŵer yn gysylltiedig ag **Ystâd y Goron.**

Mae Ystâd y Goron yn gasgliad o asedau a daliadau a reolir yn annibynnol sy'n eiddo i'r brenin. Mae'n cynnwys gwely'r môr allan i 12 môr-filltir o'r lan a thua 50,000 erw o dir comin Cymru. Mae gwarged refeniw yr Ystâd yn cael ei roi i Drysorlys y Deyrnas Unedig.

Mae'r Ystâd yn dal hawliau i ynni alltraeth ar y silff gyfandirol, sy'n arwyddocaol o ystyried **ehangu disgwyliedig ynni llanw a gwynt alltraeth Cymru** dros y degawdau nesaf. Y llynedd, **dyfarnwyd prydlesi Ystâd y Goron** ar gyfer tri datblygiad ynni gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd.

Cafodd daliadau Ystâd y Goron yn yr Alban **eu datganoli yn 2019**. Mae Llywodraeth Cymru **yn cefnogi datganoli Ystâd y Goron,** a **sefydlodd banel** ym mis Rhagfyr 2025 i ystyried y ffordd orau o ddatganoli Ystâd y Goron i Gymru. Fodd bynnag, **nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig o blaid ei ddatganoli**, gan gyfeirio at risg o ddarnio'r farchnad, ei thanseilio neu ddinistrio hyder datblygwyr mewn ynni gwynt arnofiol ar y môr.

## Plastigau untro a'r Cynllun Dychwelyd Ernes

Mae **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023** yn cyfyngu ar werthu nifer o eitemau plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel. Cyflwynwyd **cyfnod 1 y gwaharddiad,** sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o gynhyrchion yn y Ddeddf, yn 2023.

Roedd Cyfnod 2 i fod i ddod i mewn erbyn gwanwyn 2026 (diwedd tymor y Senedd hon) i wahardd bagiau siopa untro plastig, caeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê, a chynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy – eitemau nad ydynt wedi eu cynnwys ar y rhestr wreiddiol o **waharddiadau y cytunwyd arnynt** ar **'Egwyddorion mynediad i'r farchnad' Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.**

Roedd Gweinidogion Cymru wedi dweud yn flaenorol nad oedd angen **eithriadau i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig** er mwyn i ddeddfwriaeth y Senedd ddod i rym, ond **derbyniodd y Cwnsler Cyffredinol yn ddiweddarach** y "gallai'r Ddeddf gael effaith". O ganlyniad, **ni fydd Cyfnod 2 yn cael ei ddwyn ymlaen mwyach** erbyn diwedd y tymor gan nad yw bellach yn hyfyw cytuno a deddfu ar eithrio o dan y Farchnad Fewnol mewn pryd.

Yn yr un modd, mae trafodaethau eithriadau Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig hefyd wedi effeithio ar gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes. **Ar ôl llawer o drafodaethau** a bron i ddegawd ers ei gynnig gyntaf, **bydd cynllun dychwelyd ernes yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref 2027,** ond ni fydd yn cyflawni'r uchelgais 'ailddefnyddio' llawn. Bydd angen eithriadau pellach cyn gwneud hynny.

### Dynodiad Parc Cenedlaethol

Ar 11 Chwefror, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y byddai'r penderfyniad terfynol ar sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru – Parc Cenedlaethol Glyndŵr – yn **benderfyniad i'r llywodraeth nesaf ei wneud.**

Arweiniodd Cyfoeth Naturiol Cymru raglen dynodi'r Parc Cenedlaethol a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth, asesu, **ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024** ac **ymgynghoriad statudol yn 2025**. Yna, ar 12 Ionawr 2026, cytunodd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud **Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr,** er mwyn i Lywodraeth Cymru ei ystyried.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, **nid oedd yr un o'r awdurdodau lleol** yr effeithiwyd arnynt gan y cynigion yn cefnogi'r dynodiad – Powys, Gwynedd, Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Bu **Cyfnod Hysbysu Cyhoeddus** ar gyfer y Gorchymyn Dynodi yn weithredol rhwng 16 Ionawr a 15 Chwefror 2026. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn awr yn cyflwyno'r holl wybodaeth i Lywodraeth Cymru, a fydd yn cytuno ar y camau nesaf. Mae gwrthwynebiad gan awdurdod lleol yn ystod y cyfnod Hysbysu Cyhoeddus **yn sbarduno ymchwiliad lleol.**

## 9. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Dathlu amrywiaeth a dileu anghydraddoldeb: rhethreg neu realedd?**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd a ffurfiau eraill ar wahaniaethu.
- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog.
- Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol.
- Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd.
- Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl
- Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau.
- Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw.
- Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref.

## Y cefndir

Er gwaethaf datblygu cynlluniau gweithredu i wella bywydau grwpiau penodol, mae anghydraddoldeb yn parhau i fod yn her barhaus yng Nghymru, gyda thensiynau cymdeithasol cynyddol a gwahaniaethau parhaus ar draws meysydd fel cyflog, diwylliant yn y gweithle, a mynediad at wasanaethau. Mae **9 ymrwymiad penodol** a 18 **ymrwymiad gweinidogol** o dan yr amcan hwn.

## Dathlu Amrywiaeth

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido** dros 80 o sefydliadau rhwng 2022 a 2025, 9 prosiect arall yn y flwyddyn ariannol gyfredol **ac mae'n bwriadu** cyllido 40 o sefydliadau eraill i feithrin creadigrwydd, hyrwyddo cynhwysiant a chyfoethogi bywiogrwydd diwylliannol ar lawr gwlad. Canfu **gwerthusiad o'r rhaglen gyllido**, er ei fod wedi gwneud "cynnydd ystyrlon" tuag at ei nodau gwrth-hiliol, "bydd angen i'r gefnogaeth a gweithgarwch meithrin capasiti barhau er mwyn sicrhau newid yn y tymor hwy".

Yn 2024-25 **dywedodd 58% o'r bobl a holwyd eu bod yn teimlo ymdeimlad o gymuned** o fewn eu hardal leol, o'i gymharu â 64% yn 2021-22. **Yn y flwyddyn**

**a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 adroddwyd am 6,213** o droseddau casineb yng Nghymru, gyda 3,911 ohonynt â chymhelliant hiliol. Mae'r **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** wedi mynegi pryderon ynghylch cydlyniant cymdeithasol a chynnydd mewn tensiynau cymunedol, ac wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys a chydgysylltiedig. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Pwyllgor, gan gynnwys sefydlu **Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol**.

## Bylchau cyflog

Mae sefyllfa economaidd anghyfartal menywod yn un o brif sbardunau anghydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2026 **adroddodd y TUC** fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn 9.7%, sy'n golygu bod menywod yn gorfod 'gweithio 35 diwrnod am ddim' bob blwyddyn.

O ganlyniad i **Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 2025** y Deyrnas Unedig, bydd angen i gyflogwyr greu cynlluniau gweithredu ynghylch bylchau cyflog rhwng y rhywiau. Bydd y rhain yn wirfoddol o 6 Ebrill 2026 ac yn orfodol rywbryd yn 2027. Mae'r TUC wedi croesawu'r Ddeddf, ond mae'n dweud bod yn rhaid i'r cynlluniau gweithredu fod yn fwy uchelgeisiol a chadarn i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

**Mae amcangyfrifon o'r tâl canolrifol fesul awr a'r gwahaniaeth cyflog** rhwng enillion fesul awr gweithwyr yng Nghymru yn ôl statws anabledd ac yn ôl ethnigrwydd yn dangos **anwadalwch y bylchau cyflog**, gan ei gwneud hi'n anodd asesu tueddiadau hirdymor. Yn 2025 nodwyd yn **Adroddiad Llesiant Cymru** fod y **bwlch cyflog ar gyfer gweithwyr o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig** o'i gymharu â gweithwyr gwyn wedi gostwng o 13.8% yn llai yr awr yn 2023 i 3.6% yn llai yr awr yn 2024. Mae **Race Equality First** wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cofnodi data bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd yn orfodol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac i annog gweithredu tebyg yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae hefyd eisiau gweld sefydliadau yn cyhoeddi data ar gyflog, dilyniant a chyflogi yn ôl ethnigrwydd a statws ymfudo.

Mae'r bwlch cyflog **rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yng Nghymru** wedi gostwng o 12.2% yn 2023 i 7.8% yn 2024. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn 2024, **dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** "the pay differences duty in the Welsh regulations could be easily amended to include monitoring of disability pay gaps".

Ers cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cymryd camau i fwrw ymlaen â Bil Cydraddoldeb (Hil ac Anabledd) a allai ei

gwneud yn ofynnol i gyflogwyr mawr (y rhai sy'n cyflogi 250 neu ragor o weithwyr) adrodd ar eu bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd. Ym mis Mawrth 2025 cyhoeddodd ymgynghoriad ar y **mesurau arfaethedig yn y Bil** a oedd yn cynnwys cwestiynau ar gwmpas daearyddol y Bil.

Ar 3 Chwefror 2026 darparodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **ddiweddariad ar gynnydd y Bil**, gan nodi y bydd yn cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad ac yn rhannu'r camau nesaf 'maes o law'. Ym mis Ionawr 2026 dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn **ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig** ar y Bil Cydraddoldeb (Hil ac Anabledd) arfaethedig.

### Cyllidebu ar sail rhywedd

Yn y Senedd hon mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **tri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd** ac wedi dweud bod y rhain **"wedi gosod y sylfeini ar gyfer dull mwy systematig".** Fodd bynnag, dywedodd **Grŵp Cyllideb Menywod Cymru** bod penderfyniadau ynghylch cyllideb 2026-27 wedi methu cydnabod y materion sy'n wynebu menywod, gan ddatgelu'r 'angen brys' i gyflwyno cyllidebu ar sail rhywedd. Mae'r **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid** wedi galw am gamau pellach i ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru.

## 10. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Y Gymraeg, twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau: yn ffynnu ynteu'n goroesi?**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol.
- Cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth.
- Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg.
- Symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.
- Gweithredu safonau'r Gymraeg ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar cymdeithasau tai.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei siarad mewn rhagor o leoedd, gan gynnwys gweithleoedd.
- Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.
- Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru a darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru.
- Mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu.
- Ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd.
- Buddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ymrwymo i Theatr Clwyd, sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.
- Cefnogi'r cais i nodi tirwedd lechi'r Gogledd-orllewin fel Safle Treftadaeth y Byd.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd.
- Hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau llawr gwlad.

## Ardoll ymwelwyr

Cafodd y **Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc (Cymru)** Gydsyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025. Mae'r Ddeddf yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn rhoi pŵer dewisol i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr.

## Cyllid diwylliant a chwaraeon

Mae Ymchwil y Senedd wedi dadansoddi cyfanswm gwariant y llywodraeth yng Nghymru a gwledydd Ewropeaidd eraill, gan gyhoeddi **erthygl ym mis Mawrth 2025.** Cynhwyswyd ffigurau wedi eu diweddaru yn **Adroddiad Cyllideb Ddrafft 2026-27 y Pwyllgor Diwylliant** ym mis Rhagfyr 2025.

Y gwariant cyfartalog ar wasanaethau diwylliannol yn y gwledydd hyn yw £223.85 y pen. Yng Nghymru, y ffigur yw £73.27 y pen, neu 33% o gyfartaledd y gwledydd hyn. Roedd hyn yn rhoi Cymru yn y safle olaf ond un o'r grŵp o 25 o wledydd.

£180.24 y pen yw'r gwariant cyfartalog ar wasanaethau hamdden a chwaraeon yn y gwledydd hyn. £61.84 y pen yw'r ffigur yng Nghymru, neu 34% o gyfartaledd y gwledydd hyn. Yn yr un modd â'r gwariant ar ddiwylliant, roedd hyn yn rhoi Cymru yn y safle olaf ond un yn y grŵp o 25 o wledydd.

Yn 2025 **dywedodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol:**

> Mae'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn fregus a heb ddigon o adnoddau sydd wedi arwain at fynediad annigonol at ddiwylliant a chwaraeon ledled y wlad, sy'n tanseilio ymdrechion i ehangu mynediad gan ein cyrff cenedlaethol. Mae'r mynediad annigonol hwn yn debygol o greithio ffrwyth gwaith diwylliant a chwaraeon Cymru am flynyddoedd i ddod.

## Cyflwyno diwylliant

Er bod Llywodraeth Cymru yn dweud (yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025) ei bod wedi cwblhau ei hymrwymiad i ddatblygu strategaeth ddiwylliant ac i sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi beirniadu'r diffyg uchelgais wrth gyflawni'r ymrwymiadau hyn. **Ni fwriwyd ymlaen â'r bwriad i sefydlu amgueddfa ar gyfer y Gogledd** ar ôl **dyrannu £500,000 ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb**.

Mae **'Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant'** yn cynnwys datganiadau eang o fwriad (e.e. "Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol") yn hytrach nag ymrwymiadau diriaethol o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. **Dywedodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol:**

> Nid yw'n cynnwys dadansoddiad o'r heriau sy'n wynebu'r sector, na rhaglen ystyrlon ar gyfer mynd i'r afael â nhw.

Roedd costau cyfalaf yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol **"tua chwarter"** o'r £35 miliwn gwreiddiol a ragwelwyd, sy'n adlewyrchu'r hyn **mae Llywodraeth Cymru yn ei alw** yn 'fodel gweithredu darbodus'. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cynlluniau ar gyfer cyllid refeniw ei phrosiect yn y dyfodol, gyda›r **Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Jack Sargeant AS,** yn dweud ei fod yn gobeithio y bydd yn 'hunangynhaliol'. Mae hyn er gwaethaf bod holl bartneriaid allweddol y prosiect **yn dweud bod angen cyllid refeniw parhaus.**

## Deddfwriaeth y Gymraeg

Roedd **Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025** yn un o addewidion allweddol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynnydd ar ei strategaeth 'Cymraeg 2050' o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r fframwaith o amgylch cynllunio addysg Gymraeg, gyda'r nod o wella canlyniadau ieithyddol disgyblion. Elfen allweddol i gyflawni hyn yw amodau isafswm addysg Gymraeg y bydd angen eu darparu gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Er enghraifft, bydd angen i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ddarparu addysg Gymraeg am o leiaf 10% o amser sesiynau'r ysgol. Bydd gofyn i ysgolion dwyieithog ddarparu isafswm o 50%, ac ysgolion Cymraeg yn bennaf ddarparu isafswm o 80%.

Bydd gweithredu rhannau sylweddol o'r Ddeddf yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth nesaf Cymru.

## Safonau'r Gymraeg

Ar hyn o bryd, mae dros 130 o sefydliadau yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, ond mae llawer mwy nad ydynt yn rhan o'r gyfundrefn safonau eto. Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar gyfer rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, ac yn fwyaf diweddar, **cymdeithasau tai (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).**

Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno Safonau'r Gymraeg ar ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, ni fydd hyn yn cael ei gyflawni yn y Senedd hon. **Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, ym mis Medi** mai'r bwriad yw:

> dod â thrafnidiaeth gyhoeddus o dan y safonau, ond rŷn ni eisiau ei wneud e mewn ffordd sy'n delio â'r newidiadau yn y maes yma. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod tymor y Senedd hon, i'r Senedd nesaf, i roi'r Senedd nesaf mewn sefyllfa i alinio cyflwyno'r safonau â sefydlu Great British Railways a phopeth arall sy'n newid yn y maes.

Mae'n ofynnol i Trafnidiaeth Cymru gydymffurfio â rhai o Safonau'r Gymraeg mewn meysydd penodol yn rhinwedd y dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru.

# 11. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Diwygio addysg: Cenhadaeth Llywodraeth Cymru i wella safonau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **atodiad manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Ariannu hyd at 1,800 o staff tiwtora ychwanegol yn ein hysgolion.
- Adeiladu ar Raglen Gwella Gwyliau'r Haf.
- Parhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n deillio o'r pandemig ac adolygu'r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu ac i bob plentyn ysgol gynradd o leiaf.
- Buddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol.
- Ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol.
- Datblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo.
- Gwella'r trefniadau ar gyfer addysgu hanes Cymru, yn ei holl amrywiaeth a chymhlethdod, fel rhan fandadol o'r cwricwlwm newydd.
- Mynd â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drwy'r Senedd.
- Datblygu strategaeth arloesi genedlaethol newydd, sy'n seiliedig ar genhadaeth, i'w gweithredu ar draws y llywodraeth a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren.

## Dim newid i'r flwyddyn ysgol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r ymrwymiadau unigol o dan yr amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu, gydag eithriad nodedig lle na wnaed newidiadau o ganlyniad i'r ymrwymiad i " Ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol".

Cynhaliwyd **ymgynghoriad** rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024, gan gynnig diwygio tymhorau ysgol fel eu bod yn fwy cyfartal, gyda seibiannau wedi eu dosbarthu'n fwy cyfartal. Roedd y cynigion yn cynnwys byrhau'r tymor hiraf ar hyn o bryd (Medi i Ragfyr) drwy gymryd wythnos o wyliau'r haf i roi pythefnos o seibiant dros hanner tymor Hydref; a datgysylltu gwyliau ysgol y Pasg o benwythnos y Pasg i gyflawni hyd tymor mwy cyson a chyfartal y naill ochr i wyliau'r Pasg. Ymhlith y newidiadau posibl a ystyriwyd ar gyfer y dyfodol roedd seibiant hanner tymor hirach ym mis Mai, a fyddai'n lleihau gwyliau'r haf ymhellach i bedair wythnos.

Rhan allweddol o'r **rhesymeg oedd i "ddiwallu anghenion dysgwyr dan anfantais a'u teuluoedd yn well",** gan fynd i'r afael â sefyllfa lle mae profiadau gwahanol y tu allan i'r ysgol yn golygu bod rhai dysgwyr yn syrthio ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion yn ystod chwe wythnos gwyliau'r haf.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS, **ym mis Mehefin 2024** ei bod wedi penderfynu peidio â gwneud newidiadau i batrwm y flwyddyn ysgol yn ystod tymor y Senedd hon. Tynnodd sylw at y diffyg consensws yn yr **ymatebion i'r ymgynghoriad** a lefel y newid yr oedd athrawon ac ysgolion eisoes yn gyfrifol am ei weithredu. Roedd hi'n teimlo'n gryf "bod angen i ni barhau i ganolbwyntio ar y rhaglen uchelgeisiol o ddiwygiadau sydd gennym eisoes yn ystod y cyfnod hwn".

Denodd hyn **feirniadaeth gan y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS**, a ddywedodd bod y penderfyniad yn "cefnu ar ymrwymiad maniffesto a wnaed gan y Blaid Lafur yn yr etholiad diwethaf". Gan dynnu sylw at ei farn am y dysgu "sy'n cael ei golli" yn ystod gwyliau'r haf, dywedodd mai'r "hyn rwy'n gresynu ato fwyaf yw'r difrod a fydd yn cael ei wneud i gyfleoedd bywyd y plant sydd wrth wraidd y polisi hwn".

## Cynnydd o ran amcan addysg y Rhaglen Lywodraethu yn ei gyfanrwydd

Rhan sylfaenol o'r amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu yn ei gyfanrwydd yw **gweithredu diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**, gan godi **safonau** a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng

disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion. Trafododd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog **y materion hyn** gyda'r Prif Weinidog yn ystod ei **sesiwn ar thema addysg ym mis Rhagfyr**. I grynhoi:

- Bydd cyflwyno'r **Cwricwlwm i Gymru** yn cael ei gwblhau ym mis Medi pan gaiff ei ymestyn i Flwyddyn 11, a bydd y set gyntaf o **gymwysterau newydd** yn cael ei ddyfarnu yn haf 2027.
- Mae'r **System ADY** wedi cael ei chyflwyno'n raddol dros y cyfnod o 2021 i 2025, ond canfu **adolygiad Llywodraeth Cymru** ei bod yn cael ei gweithredu'n anghyson ac mae dryswch ynghylch egwyddorion allweddol fel y diffiniad o ADY a'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth ddysgu ychwanegol yn hytrach na darpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol.
- Mae **Adroddiad Blynyddol** diweddaraf Estyn yn **rhybuddio** bod "gwendidau parhaus mewn llythrennedd, ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth, yn enwedig mewn **ysgolion uwchradd**, yn cyfyngu ar gynnydd gormod o ddysgwyr". Ar ddechrau mis Mawrth, roedd 26 o'r 173 (15%) ysgol uwchradd yng Nghymru mewn **categori statudol o fod yn destun pryder**. (Darparwyd yr wybodaeth gan Estyn i Ymchwil y Senedd ar gais.)
- Mae canlyniadau TGAU ychydig yn uwch (2025) na chyn y pandemig (2019) ar raddau A*-A, er ychydig yn is ar raddau A*-C. Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill wedi ehangu fel ei fod yn 29 pwynt canran ar raddau TGAU A*-C. Mae canlyniadau Safon Uwch wedi cynyddu ac maent yn uwch nag yn Lloegr. (Gweler tudalennau 5 i 10 o **bapur briffio Ymchwil y Senedd ym mis Rhagfyr 2025**)

## Addysg drydyddol ac ymchwil

**Cyflwynwyd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)** gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, ym mis Tachwedd 2021. Ar 8 Medi 2022, cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**. Mae **erthygl gan Ymchwil y Senedd** yn crynhoi'r broses ddeddfwriaethol.

Sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a enwyd yn 'Medr' wedi hynny) gan y Ddeddf. Daeth Medr yn weithredol ym mis Awst 2024. Ar yr adeg honno, disodlodd Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a gafodd ei ddiddymu.

Mae **Medr** yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio pob math o addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae hyn yn cynnwys: addysg bellach, darpariaeth chweched

dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, addysg uwch, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, ac ymchwil ac arloesi. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn **craffu ar Medr** ar 15 Ionawr 2026.

# 12. Amcan yn y Rhaglen Lywodraethu: "Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang"

Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Cymru gartref a thramor**

Adroddiad blynyddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2025: **Crynodeb** ac **Atodiad Manwl**

Mae'r **amcan hwn yn y Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Sefydlu comisiwn sefydlog annibynnol i ystyried dyfodol cyfansoddiadol Cymru.
- Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio, sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol – na'r un bresennol a chyflwyno cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith.
- Hyrwyddo a chefnogi gwaith y Comisiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Blaid Lafur y DU.
- Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru.
- Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig.
- Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd.
- Rhoi rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol gwerth £65 miliwn ar waith.
- Ailfywiogi ein perthynas efeillio ledled yr UE drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc.

### Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** ym mis Tachwedd 2021. Roedd ganddo ddau amcan eang

1. Ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni.
2. Ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

**Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Terfynol** ym mis Ionawr 2024, gan ddadlau bod y setliad datganoli presennol "mewn perygl o gael ei erydu'n raddol" heb gamau brys i'w ddiogelu. Gwnaeth ddeg argymhelliad i gyd, a **groesawyd gan Lywodraeth Cymru.** Mae'r argymhellion yn ymwneud â:

- chynnwys cymunedau o fewn prosesau democrataidd, drafftio datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethu, ac adolygu diwygio'r Senedd yn gadarn;
- pwyso am ddeddfwriaeth yn Senedd y Deyrnas Unedig ar gyfer mecanweithiau rhynglywodraethol cryfach, a gwneud Confensiwn Sewel yn gyfreithiol rwymol ac eithrio mewn amgylchiadau penodol;
- dileu cyfyngiadau ar reoli cyllideb Llywodraeth Cymru; a
- datganoli pwerau pellach, gan gynnwys dros ddarlledu, ynni, Ystâd y Goron, cyfiawnder a phlismona, a gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd.

Yn unol ag argymhelliad cyntaf y Comisiwn, sefydlodd Llywodraeth Cymru y **Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth**. Cyhoeddodd y Grŵp, sy'n cael ei gadeirio gan Dr Anwen Elias, ei raglen waith ym mis Medi 2025. Mae'r rhaglen waith wedi ei strwythuro o gwmpas tri uchelgais craidd:

- Grymuso Dinasyddion trwy Addysg a Gwybodaeth Ddemocrataidd;
- Cryfhau diwylliant gwleidyddol ar gyfer cyfranogiad a thrafod; a
- Gosod Sylfeini ar gyfer Egwyddorion Cyfansoddiadol.

Cyhoeddodd **y Comisiwn ar Ddyfodol y Deyrnas Unedig ei adroddiad** yn Rhagfyr 2022. Wrth wneud rhai argymhellion yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys datganoli pwerau dros gyfiawnder ieuenctid a phrawf), nodwyd yn yr adroddiad ei fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn annibynnol i wneud argymhellion ar faterion cyfansoddiadol. Rhoddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, **groeso "grymus"** i'r adroddiad.

## Rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i Gymru ar y llwyfan byd-eang

Ym mis Chwefror 2026, cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ei adroddiad ar Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae **'Cenhadaeth Cymru'** yn cyflwyno deuddeg egwyddor newydd ar gyfer dyfodol cysylltiadau rhyngwladol Cymru. Mae adroddiad y Pwyllgor yn galw ar lywodraethau'r dyfodol i fabwysiadu 'Cenhadaeth Cymru' o'r fath er mwyn "gwarantu bod Cymru'n cyflawni ei huchelgeisiau o ran cysylltiadau rhyngwladol yn gyson ac yn gwireddu ei photensial".

Roedd yr adroddiad yn feirniadol o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol. Er enghraifft, beirniadodd y Prif Weinidog am ddiffyg presenoldeb mewn sesiynau craffu pwyllgorau ac am beidio â bod yn bresennol yn yr un o'r dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar ei hadroddiadau cysylltiadau rhyngwladol ers ymgymryd â'r swydd. Er bod y Prif Weinidog wedi rhoi asesiad i'r Pwyllgor o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu, dywedodd fod dull y Prif Weinidog yn golygu bod "rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gyflawni ar hyn sydd heb ei gyflawni."

Tra bod **rhai o dystion yr ymchwiliad** yn hyderus bod proffil Cymru ar lwyfan y byd wedi cael ei godi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, canfu'r Pwyllgor fod diffyg metrigau, adrodd a gwerthuso yn golygu na ellid gwirio hyn.

Nid yw ymrwymiadau rhyngwladol y Rhaglen Lywodraethu i'w gweld mewn un lle. Mae dau ymrwymiad penodol - cadw swyddfa ym Mrwsel a sefydlu Academi Heddwch – wedi eu cyflawni. Nid yw ymrwymiadau rhyngwladol pwysig eraill wedi eu cyflawni, fel **ymgorffori dau Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru**. Ymddengys nad oes unrhyw wybodaeth ym mharth cyhoeddus i ganfod a fwriwyd ymlaen â'r ymrwymiad i adfywio cysylltiadau gefeillio ledled yr Undeb Ewropeaidd drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc.